Adran Gwaith a Phensiynau

# Cewch help gan **Gredyd Pensiwn**

**Hawdd ei ddarllen**



Ein Cyfeirnod: **PC1ERW 04/26**

# Cynnwys


1

Adran Gwaith a Phensiynau

**Cyflwyniad**

Tudalen 4

2




**Am bensiynau**

Tudalen 5

3




**Pwy all gael Credyd Pensiwn**

Tudalen 7

4




**Sut i wneud cais am Gredyd Pensiwn**

Tudalen 10

# Cynnwys

5



**Ar ôl i chi anfon y ffurflen atom**

Tudalen 13

6



**Mathau eraill o gefnogaeth**

Tudalen 15

7



**Sut i gysylltu â'r Gwasanaeth Pensiynau**

Tudalen 17

# 1 Cyflwyniad

Adran Gwaith a Phensiynau

Mae Credyd Pensiwn yn fudd-dal gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.



Mae Credyd Pensiwn yn rhoi arian ychwanegol i bobl sydd wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ac sydd ar incwm isel.





Mae’r daflen hon yn dweud wrthych pwy a gaiff Credyd Pensiwn a sut i wneud cais.

## 2 Am bensiynau



Mae **pensiwn** yn arian i fyw arno pan nad oes gennych gyflog nac incwm o weithio.

Mae’r rhan fwyaf o bobl yn cael pensiwn pan fyddant yn **ymddeol**.




Rydych yn ymddeol pan fyddwch yn gadael eich swydd ac yn stopio gweithio.

Gallwch ymddeol pan fyddwch yn cyrraedd oedran penodol, neu oherwydd iechyd gwael.




Mae 3 math o bensiwn:

- Pensiwn preifat
- Pensiwn gweithle
- Pensiwn y Wladwriaeth.



**Pensiwn preifat** yw'r arian rydych wedi ei gynilo neu ei fuddsoddi ar gyfer eich ymddeoliad.



**Pensiwn gweithle** yw arian sydd wedi cael ei dalu i mewn i bensiwn gan eich cyflogwr.

Efallai byddwch hefyd yn talu i mewn i bensiwn gweithle o'ch cyflog.




**Pensiwn y Wladwriaeth** yw arian efallai gallech gael oddi wrth y llywodraeth.

Os gallwch ei gael, Adran Gwaith a Phensiynau fydd yn talu'r arian hwn i chi.

# 3 Pwy all gael Credyd Pensiwn




Mae rhaid eich bod o **oedran Pensiwn y Wladwriaeth** i gael Credyd Pensiwn.

?

**Esbonio oedran Pensiwn y Wladwriaeth**

Eich **oedran Pensiwn y Wladwriaeth** yw'r oedran ieuengaf y gallwch gael Pensiwn y Wladwriaeth.

Am ragor o wybodaeth am eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth, ewch i: www.gov.uk/state-pension-age



Os ydych mewn cwpl, mae'n rhaid eich bod **chi a'ch partner eich ddau** wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.



I gael Credyd Pensiwn, mae'n rhaid i chi fyw yng **Nghymru**, **Lloegr**, neu'r **Alban**.




Mae'n rhaid bod gennych **incwm isel**.



Incwm yw'r arian rydych yn ei gael. Gallai fod yn arian:

- O fudd-daliadau rydych yn eu cael
- O unrhyw bensiynau rydych yn eu cael
- Rydych wedi ei ennill neu ei gynilo.




I gael Credyd Pensiwn fel person sengl, rhaid i'ch incwm beidio â bod yn fwy na £238.00 yr wythnos.

Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau gallwch gael incwm o fwy na £238.00 a dal i gael Credyd Pensiwn.




I gael Credyd Pensiwn fel cwpl, rhaid i gyfanswm eich incwm beidio â bod yn fwy na £363.25 yr wythnos.

Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau gallwch gael incwm o fwy na £363.25 a dal i gael Credyd Pensiwn.

Gallwch ddefnyddio ein cyfrifiannell ar-lein i weld faint gallech ei gael.

Ewch i [www.gov.uk/cyfrifiannell-credyd-pensiwn](http://www.gov.uk/cyfrifiannell-credyd-pensiwn)

# 4 Sut i wneud cais am Gredyd Pensiwn




Gallwch wneud cais am Gredyd Pensiwn:

- Ar-lein
- Dros y ffôn
- Drwy'r post.



Efallai byddwch eisiau gofyn i rywun rydych yn ei adnabod i'ch helpu pan fyddwch yn gwneud cais.

cyngor ar bopeth

age Cymru

Gallwch hefyd ofyn i **Gyngor ar Bopeth** neu **Age Cymru** am help.

Mae dolenni i'w gwefannau ar ddiwedd y daflen hon.


## Sut i wneud cais ar-lein




Gallwch wneud cais am Gredyd Pensiwn ar-lein. Ewch i www.gov.uk

Chwiliwch am **'Gredyd Pensiwn'**.

## Sut i wneud cais dros y ffôn



Gallwch wneud cais am Gredyd Pensiwn dros y ffôn.




Gall ffrind neu aelod o'r teulu ein ffonio ar eich cyfer os na allwch ddefnyddio'r ffôn.



Ffoniwch **Linell am Geisiadau Newydd Credyd Pensiwn.**

Ffôn:

0800 99 1234



Mae’r llinell am geisiadau newydd ar agor dydd Llun i ddydd Gwener, 8am i 6pm.



Os na allwch glywed neu siarad dros y ffôn, gallwch hefyd ddefnyddio Relay UK:

18001 yna 0800 99 1234

# Sut i wneud cais drwy'r post



Gallwch wneud cais am Gredyd Pensiwn drwy'r post.



Cysylltwch â **llinell geisiadau Credyd Pensiwn**, a gofynnwch iddynt bostio'r ffurflen atoch.





Llenwch y ffurflen a'i hanfon i:

**Freepost DWP Pensions Service 3**

# 5 Ar ôl i chi anfon y ffurflen atom



Pan wnewch gais byddwn yn edrych ar faint o **incwm** a gewch yn barod.




Gall incwm fod arian:

- Rydych yn ei gael o fudd-daliadau
- Rydych yn ei gawl o bensiynau
- Rydych wedi ei ennill neu ei gynilo.



Byddwn hefyd yn edrych ar:

- Cynilion neu fuddsoddiadau dros £10,000
- Os ydych mewn cwpl, faint o arian a chynilion sydd gennych chi'ch dau.



Efallai cewch ragor o arian os:

- Mai chi yw prif ofalwr plentyn, person ifanc, person anabl
- Oes gennych anabledd difrifol
- Oes gennych gostau tai penodol.




Pan wnewch gais byddwn yn rhoi gwybod i chi a allwch gael Creyd Pensiwn ai beidio.




Mae’n rhaid bod gennych gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu.

Dyma le byddwn yn talu eich arian.

# 6 Mathau eraill o gefnogaeth




Os ydych yn 75 oed neu drosodd a chewch Gredyd Pensiwn, byddwch hefyd yn gallu gwneud cais am drwydded teledu am ddim.



Efallai gallech gael Budd-dal Tai hefyd.




Efallai byddwch yn talu llai o dreth cyngor.



Efallai cewch help i dalu’r llog ar eich morgais.


Rydym yn galw hyn yn Gymorth ar gyfer ‘**Llog Morgais**’.

Am fwy o wybodaeth hawdd ei darllen am Llog Morgais, ewch i www.gov.uk

Chwiliwch am: ‘**Easy Read Support for Mortgage Interest**’.



Efallai cewch help â chostau gwresogi’ch tŷ.



Efallai gallwch gael gofal iechyd am ddim, fel:


- Gofal deintyddol
- Help i dalu am sbectol.

Am ragor o wybodaeth ar help arall gallech ei gael, ewch i www.gov.uk/cyfrifiannell-budd-daliadau

# 7 Sut i gysylltu â'r Gwasanaeth Pensiynau



Os oes gennych gwestiwn neu fod angen help arnoch â'ch cais, cysylltwch â **llinell gymorth y Gwasanaeth Pensiynau**.




Mae'r llinell gymorth ar agor dydd Llun i ddydd Gwener, 9:30am i 3:30pm.




Ffôn:

0800 731 0453



Ffôn Saesneg:

0800 731 0469



Os na allwch glywed neu siarad dros y ffôn, defnyddiwch Relay UK:

18001 yna 0800 328 5644



Os ydych yn fyddar ac yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, efallai gallech ddefnyddio’r **Gwasanaeth Cyfnewid Fideo**.

Am ragor o wybodaeth am Gredyd Pensiwn, ewch i
www.gov.uk/credyd-pensiwn

Am ragor o wybodaeth am fudd-daliadau efallai gallwch eu cael, ewch i:
www.gov.uk/browse/disabilities

Gallwch hefyd gael help â gwneud cais am fudd-daliadau gan
Gyngor ar Bopeth (www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/)
ac Age Cymru (https://www.ageuk.org.uk/cymru).

Am ragor o help â phroblemau ariannol, ewch i:
maps.org.uk/cy